

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: IECHYD CYHOEDDUS

Teitl: I gefnogi'r gwaith o atal hunanladdiad a hunan-niwed: Canllawiau NICE a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer datgelu gwybodaeth er mwyn diogelu cleifion ac eraill.

Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad: Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Brif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol
Meddygfeydd meddygon teulu

Angen gweithredu erbyn: ar unwaith

Anfonwr: Dr Stuart Hackwell a Dr Anna Kuczynska, Uwch-swyddogion Meddygol

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :

Lisa Pollard, Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed.
E-bost: mentalhealthandvulnerablegroups@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: Dim

Annwyl Gyfaill

Diben y cylchlythyr hwn yw sicrhau bod pob meddyg teulu a bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn gwybod am y canlynol, ac yn eu hystyried:

- Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r datganiad consensws y mae'r Adran Iechyd, y Colegau Brenhinol, a phartneriaid eraill wedi cytuno arno.
- Mae'r canllawiau ar gyfer pryd i ddatgelu gwybodaeth am gleifion, a sut i ymdrin â datgeliadau, ar gael drwy'r ddolen ganlynol: [General Medical Council Confidentiality: good practice in handling patient information](#) Mae'r amlinelliad canlynol o'r canllawiau ar gael drwy'r ddolen honno er mwyn helpu ynglŷn â: [Disclosures for the protection of patients and others](#)

Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer rhannu gwybodaeth

Mae'r canllawiau hyn gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn helpu clinigwyr i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth lle mae materion a allai effeithio ar ddiogelwch y claf ac eraill yn codi. Mae'r fframwaith cyngor a'r siart lif yn amlinellu'r wyth egwyddor i'w hystyried mewn sefyllfaoedd fel y rhain, gan gynnwys adrannau ar reoli a diogelu gwybodaeth, ynghyd â chyngor ar rannu gwybodaeth ar ôl marwolaeth claf.

Daeth y canllawiau hyn yn weithredol ar 25 Ebrill 2017. Cawsant eu diweddarau ar 25 Mai 2018 i adlewyrchu gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r canllawiau'n rhoi'r cyngor canlynol:

"All patients have the right to a confidential medical service. Challenging situations can however arise when confidentiality rights must be balanced against duties to protect and promote the health and welfare of patients who may be unable to protect themselves." (Section 50)

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Adran Iechyd (ac eraill) wedi cynhyrchu datganiad consensws (**sy'n berthnasol i oedolion**) sydd â'r nod o annog mwy o rannu gwybodaeth o fewn cyd-destun y gyfraith berthnasol, ac i'w gwneud yn glir mai mater o farn broffesiynol yr ymarferydd unigol yw hyn wrth ddarparu gofal i'r unigolyn. Mae egwyddorion y datganiad yn cael eu cefnogi yng Nghymru:

[Consensus statement for information sharing and suicide prevention - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/consensus-statement-for-information-sharing-and-suicide-prevention)

Mae'r sefyllfa o ran plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn wahanol, er bod yr un dyletswyddau'n berthnasol wrth ddefnyddio, rhannu, neu ddatgelu gwybodaeth am blant a phobl ifanc â'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag oedolion. Gellir rhannu gwybodaeth am blentyn neu berson ifanc os bydd hyn er budd y cyhoedd. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu y dylai ymarferwyr ddatgelu gwybodaeth i unigolyn neu awdurdod priodol os bydd hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r plentyn neu'r person ifanc rhag perygl marwolaeth neu niwed difrifol. Gellir gwneud penderfyniad i rannu'r math hwn o wybodaeth gyda theulu a ffrindiau, ac fel arfer dyma'r hyn a fydd yn digwydd.

Canllawiau NICE ar gyfer hunan-niwed

Mae safon ansawdd NICE ar gyfer hunan-niwed (QS34) yn ymwneud â'r camau cyntaf a gymerir i reoli hunan-niwed a darparu cymorth mwy tymor hir ar gyfer plant a phobl ifanc (8 -18 oed) ac oedolion (18 oed ac yn hŷn) sy'n hunan-niweidio.

<https://www.nice.org.uk/guidance/qs34>

<https://www.nice.org.uk/guidance/qs34/resources/self-harm-scope2>

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

NICE. *Safon ansawdd hunan-niwed (Self Harm Quality Standard)*, sydd ar gael yn:

[Overview | Self-harm: assessment, management and preventing recurrence | Guidance | NICE](#)

Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae *Confidentiality: Key Legislation* ar gael yn:

<https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors#confidentiality>

<https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/gmc-guidance-for-doctors---confidentiality-good-practice-in-handling-patient-information----70079998.pdf>

Dr Stuart Hackwell
Dr Anna Kuczynska

Uwch-swyddogion Meddygol